Y PWYLLGOR CYNLLUNIO
19 Mawrth 2014

## EITEM WYBODAETH

### ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

# YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU - DEFNYDDIO AMODAU AR GYFER RHEOLI DATBLYGU

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, y mae ar y Cyngor angen darparu sylwadau arni erbyn diwedd mis Ebrill 2014.

**2. CEFNDIR**

2.1 Mae canllawiau manwl ar y defnydd o amodau cynllunio mewn perthynas â chynigion datblygu wedi bod mewn bodolaeth ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Cymru ers 1985, ar ffurf Cylchlythyr 1/85 y Swyddfa Gymreig. Cafodd ei ddiweddaru yn 1995 gyda chyhoeddiad Cylchlythyr 35/95 y Swyddfa Gymreig, sy'n parhau i fod yn sail gyfredol o gyngor ar gyfer y Cyngor Sir, ac ar gyfer Arolygwyr Cynllunio sy'n delio apeliadau yn erbyn gwrthod caniatâd cynllunio ac amodau a osodir ar ganiatâd cynllunio.

2.2 Mae Llywodraeth Cymru bellach yn cydnabod bod y cyngor yng Nghylchlythyr 35/95 bron yn 18 mlwydd oed, ac yn cynnwys cyfeiriadau at ddeddfwriaeth sydd wedi ei diwygio neu ei disodli. Mae'r broses o wneud cais cynllunio a'r defnydd o amodau cynllunio wedi bod yn destun adolygiad gan Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, ac o ganlyniad i'r adolygiad hwnnw cynigir y dylid disodli Cylchlythyr 35/95.

2.3 Mae'r ddogfen ymgynghori gan Lywodraeth Cymru yn nodi mai'r bwriad yw 'darparu canllawiau cyfoes o ran gweithrediad effeithiol amodau cynllunio, yn ogystal â darparu rhestr wedi'i diweddaru o amodau enghreifftiol i hyrwyddo arfer gorau yn y defnydd o amodau yng Nghymru'.

**3. Y DOGFENNAU YMGYNGHORI**

3.1 Yr wybodaeth sy'n berthnasol i'r eitem yw -
- Y Ddogfen Ymgynghori (8 tudalen)
- Atodiad 1 – Cylchlythyr drafft - Defnyddio Amodau ar gyfer Rheoli Datblygu (72 tudalen)
- Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad (7 tudalen)

3.2 Mae'r Ddogfen Ymgynghori ynghlwm wrth y daflen gyflwyno, fel y gall Aelodau ddeall meddylfryd Llywodraeth Cymru i'r cynigion i ddisodli Cylchlythyr 35/95. Tynnir sylw at amcanion y Cylchlythyr, fel y nodir yn Adran 1.10, sy'n cynnwys yr awydd i safoni hysbysiadau penderfyniadau yng Nghymru, annog defnydd cymesur a hyblyg o amodau,

ystyried y goblygiadau o ran monitro a gorfodi amod, ac i ddarparu rhestr o amodau cynllunio enghreifftiol cyfoes.

3.3 Gellir gweld yr holl ddogfennau ar-lein ar dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru: www.wales.gov.uk/consultations/planning/review-of-planning-conditions-circular/?lang=cy

3.4 Bydd yn rhaid i ni anfon ein sylwadau i Lywodraeth Cymru erbyn 25 Ebrill, 2014.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Anogir Aelodau i ddarllen y dogfennau ac i gyflwyno unrhyw sylw drwy e-bost at cynllunio@sirddinbych.gov.uk fel y gellir paratoi ymateb addas cyn y terfyn amser uchod. Mae croeso i unrhyw Aelod gyfarfod gyda Swyddogion i drafod y dogfennau ymgynghori a sylwadau'r Cyngor.

**GRAHAM H. BOASE**

**PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**